



# Cariad Sy'n Cynyddu

## Cynllunio eich gwasanaeth

### Offrwm yr Adfent 2018 2-24 Rhagfyr

**Mae Offrwm Adfent yr Eglwys Fethodistaidd yn gyfle, gyda'n gilydd fel Cyfundeb, inni dreulio cyfnod yr Adfent (y pedair wythnos sy'n arwain at y Nadolig) yn myfyrio ar ddyfodiad Iesu Grist ac yn meddwl am yr angen sydd yn ein gwlad, gan annog pawb i roi i Gronfa'r Genhadaeth ym Mhrydain.**

Ysbrydolwyd y gwasanaeth ar gyfer eleni, sef **Cariad Sy'n Cynyddu**, drwy feddwl am yr Iesu ac am waith cynllun Open Doors yn Hull. Ceisiwn ystyried sut y gallwn ni i gyd chwarae ein rhan er mwyn cynnig croeso cynnes i'r dieithriaid a ddaw i'n plith i geisio lloches.

Paratowyd y deunydd hwn ar thema Offrwm yr Adfent ar gyfer addoliad mewn eglwysi Methodistaidd pan fyddant yn cynnal eu gwasanaethau eu hunain. Mae'r adnoddau yn rhai hyblyg a gellir eu defnyddio i gynnal gwasanaeth penodol mewn eglwys neu gylchdaith, ond os yw eglwysi wedi dewis codi arian at Gronfa'r Genhadaeth ym Mhrydain drwy gydol yr Adfent, mae hefyd yn bosibl defnyddio'r adnoddau er mwyn cynnal gwasanaeth i gysegru casgliad y gylchdaith, fel sy'n digwydd gydag Offrwm y Pasg.



### Darlleniadau

**Mae'r prif ddarlleniad o'r Beibl sef Philipiadaid 1:3-11** i'w weld yn y lliithiadur (Blwyddyn C) ar gyfer ail Sul yr Adfent ar 9 Rhagfyr 2018. Gallwch hefyd ddewis darlleniadau eraill o blith y rhai ar gyfer y trydydd Sul a/neu rai sy'n cyffwrdd yn uniongyrchol â thema croeso, fel y bydd thema'r gwasanaeth hwn yn gweddu i unrhyw wythnos yn yr Adfent.

Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnwys storïau ysbrydoledig am waith Open Doors, Hull lle mae ceiswyr lloches a ffoaduriaid yn derbyn croeso cynnes a chymorth a gofal ymarferol arbennig. Dyma un enghraifft o'r pethau pwysig all ddigwydd pan fyddwn yn cyfrannu i Gronfa'r Genhadaeth ym Mhrydain.



### Cronfa'r Genhadaeth ym Mhrydain

Rydym yn byw mewn cyfnod cynhyrfus a heriol, ac mae llawer o bobl yn bryderus, yn unig,

neu'n methu cael dau ben llinyn ynghyd. Mae hyn yn arbennig o wir am geiswyr lloches a ffoaduriaid sydd wedi ffoi o'u cartrefi oherwydd rhyfel neu erledigaeth Drwy ddefnyddio deunydd Offrwm yr Adfent ar gyfer eich addoliad, byddwch yn meddwl sut i chwarae eich rhan i hyrwyddo gwaith cenhadol yr Eglwys Fethodistaidd yng ngwledydd Prydain drwy:

- weddio
- cyfrannu er mwyn cefnogi Open Doors, Hull a phrosiectau eraill ledled Prydain
- ymroi i chwarae eich rhan er mwyn i gariad gynyddu fwyfwy – yn lleol a thrwy'r Cyfundeb cyfan; yn enwedig drwy goesawu'r dieithryn a gwasanaethu pobl mewn angen.

Mae **Cronfa'r Genhadaeth ym Mhrydain** ar hyn o bryd yn cefnogi:

- gweinidogaeth a chenhadaeth gyda phobl o bob oed
- gwaith yr Eglwys Fethodistaidd i drechu tloedi a hyrwyddo cyfiawnder

## Cynllunio eich gwasanaeth

- caplaniaeth mewn gwahanol fannau
- defnyddio ein treftadaeth a'n heiddo er mwyn rhannu'r efengyl

Diolch yn fawr am roi i Gronfa'r Genhadaeth ym Mhrydain. Y llynedd fe wnaethoch helpu dros 20 o brosiectau mewn gwahanol rannau o'r wlad i gefnogi llawer o bobl a chymunedau anghenus.

## Eich Gwasanaeth ar gyfer Offrwm yr Adfent

Yn **Nodiadau'r Arweinydd**, rhoddir peth cefndir i'r darlleniadau o'r Beibl a'r cysylltiad sydd rhyngddynt a'r thema. Cynigir rhai gweithgareddau creadigol a fyddai'n addas ar gyfer gwahanol oeddrannau ac awgrymir rhai emynau a gweddïau.

Yn **Materion Ymarferol** mae awgrymiadau ynghylch rhoi cyhoeddusrwydd i'ch gwasanaeth a gwybodaeth am sut i gasglu rhoddion a'u hanfon i mewn.

Gellir trin yr holl adnoddau fel 'unedau' i ddewis a dethol o'u plith er mwyn paratoi'r Gwasanaeth Offrwm Adfent mwyaf addas ar gyfer eich eglwys chi.

## Adnoddau Offrwm yr Adfent i'w lawrlwytho

- **Materion Ymarferol**
- **Poster A4 Offrwm yr Adfent**  
gyda lle i ysgrifennu dyddiad, amser a lleoliad eich gwasanaeth
- **Nodiadau'r Arweinydd**  
gan gynnwys braslun o sgwrs i bob oed a gweddïau
- **Litwrgi Canhwyllau'r Adfent**  
un ar gyfer pob Sul yn yr Adfent ac un ar gyfer Dydd Nadolig
- **Trefn Gwasanaeth a awgrymir**
- **Croeso Cariadus**  
dewch i mewn drwy'r drws yn Open Doors, Hull, a chael eich ysbrydoli gan storïau am y gwaith gwyth sy'n digwydd gyda cheiswyr lloches a ffoaduriaid

Gallwch **lawrlwytho** yr adnoddau hyn o [www.methodist.org.uk/advent](http://www.methodist.org.uk/advent)


## Adnoddau Offrwm yr Adfent i'w harchebu

- **Poster A3 Offrwm yr Adfent**  
gyda lle i ysgrifennu dyddiad, amser a lleoliad eich gwasanaeth
- **Amlenni casglu Offrwm yr Adfent**

**I'w harchebu gan** Methodist Publishing  
(efallai y codir tâl am bostio a pheycynnu):  
[www.mph.org.uk](http://www.mph.org.uk)  
0845 017 8220

- **Llyfrau talu i mewn Offrwm yr Adfent**

**I'w harchebu gan** Finance Office, Connexional Team, 25 Marylebone Road, London NW1 5JR  
Ffôn: 020 7486 5502  
E-bost: [circuit.income@methodistchurch.org.uk](mailto:circuit.income@methodistchurch.org.uk)

 Os cewch anhawster i lawrlwytho neu archebu eich adnoddau, anfonwch e-bost at [fundraising@methodistchurch.org.uk](mailto:fundraising@methodistchurch.org.uk)

  
Yr Eglwys **Fethodistaidd**

© Hawlfraint: Ymddiriedolwyr at Ddibenion yr Eglwys Fethodistaidd, 2018 Elusen gofrestredig rhif 1132208

